

40. SAFBWYNTIAU
(Balaam a Balac)

Roedd Balac, brenin Moab, mewn panig llwyr. Roedd yr Israeliaid wedi gorymdeithio i Moab gan sefydlu eu gwersyll ar y gwastatir. Roeddent newydd drechu brenin yr Amoriaid a'r brenin Sihon o Basan. Pe deuai hi i frwydr, roedd Balac yn sicr y câi ei fyddin ef ei threchu hefyd.

Nawr, yn y dyddiau hynny roedd pawb yn gredwyr mawr yng ngrym bendithion a melltithion. Byddai bendith yn arwain at lwyddiant ond methiant fyddai'n deillio o felltith. Felly, lluniodd Balac gynllun – ffordd gyfrwys o faglu'r gelyn. Roedd am gael proffwyd i'w melltithio. A gwyddai'n union pwy roedd am ei gael i wneud hynny.

Danfonodd am yr hynafgwyr. 'Mae proffwyd yn byw yn Pethor – gŵr o'r enw Balaam,' meddai wrthynt. 'Dywed pawb ei fod yn feistr ar fendithio a melltithio. I ffwrdd â chi a dywedwch wrtho am ddod yma i felltithio'r Israeliaid i mi.'

Ddeuddydd yn ddiweddarach daeth y negeswyr yn eu holau, a golwg braidd yn benisel arnynt.

'Ble mae Balaam?' holodd Balac.

'Wnâi o ddim dod hefo ni.'

'Wela i,' meddai Balac – er nad oedd yn gweld mewn gwirionedd.

Y rheswm pam y gwrthododd Balaam ddod gyda'r negeswyr oedd oherwydd fod Duw wedi dweud wrtho am beidio melltithio'r Israeliaid. Ond credai Balac iddo wrthod oherwydd nad oedd eto'n gwybod am y cyfoeth a dderbyniai am wneud y gwaith. Felly, trefnodd i ail fintai fwy niferus a phwysicach o negeswyr ymweld ag ef. Dywedodd wrthynt am ddweud wrth Balaam y câi ei dalu'n dda am felltithio.

Fu hi fawr o dro cyn iddo dderbyn newydd da. Roedd Balaam ar ei ffordd i Moab. Ond wrth i'r proffwyd deithio ar y ffordd lychlyd dechreuodd ei asyn ymddwyn yn rhyfedd. Roedd yn hynod 'styfnig ac yn llawer mwy busneslyd nag arfer. Yna'n rhyfeddach fyth trodd yr asyn ei ben a dechrau siarad â'i feistr gan ofyn iddo pam y bu'n ei chwipio mor galed. Dyna pryd yr agorwyd llygaid Balaam a sylweddolodd fod angel a chanddo gleddyf miniog peryglus yn sefyll ar y ffordd ac yn ei rwystro rhag mynd ymlaen. Roedd wedi cael ei ddanfon gan Dduw i'w rybuddio i lefaru dim ond yr hyn roedd Duw am iddo ei ddweud.

Rai oriau'n ddiweddarach a'i wyneb yn ddigon gwelw, cyrhaeddodd y proffwyd Moab i gyfarfod y brenin. Sylwodd Balac ei fod yn edrych yn sâl braidd. Ond gan na wyddai am yr angel arfog, heb sôn am yr asyn yn siarad, tybiai mai wedi blino ar ôl ei daith roedd Balaam.

'Rwyt ti'n edrych fel pe bait ti angen pryd o fwyd a noson dda o gwsg,' meddai. 'Fe gawn ni drafod busnes yfory.'

Yn gynnar y bore canlynol aeth y brenin a grŵp o arweinwyr Moabaidd a'r proffwyd i ben rhyw fryn. Yno safasant gan edrych i lawr ar yr Israeliaid oedd yn gwersylla ar y gwastatir islaw. 'Dy waith di yw melltithio'r rhai acw yn yfflon,' meddai Balac.

Nawr, roedd pob math o seremonïau i fynd trwyddynt cyn y melltithio. I ddechrau, dywedodd Balaam wrth yr arweinwyr Moabaidd am adeiladu saith allor. Yna, aberthodd ef a'r brenin saith bustach a saith hwrdd. Yna, aeth y proffwyd i ffwrdd ar ei ben ei hun gan ddringo i gopa bryn diarffordd lle bu'n siarad â Duw.

Pan ddychwelodd at y gweddill aeth pawb yn dawel. Dyma'r hyn y buont yn disgwyl amdano. Gwenodd Balac yn ddisgwylgar. 'Dos yn dy flaen. Melltithia nhw i ebargofiant!' meddyliodd.

'Balac, Brenin Moab, sydd wedi dod â fi yma,' datganodd Balaam. '"Tyrd i felltithio pobl Israel" oedd ei orchymyn.'

‘Digon gwir,’ amneidiodd Balac ei ben.

‘Ond sut gallaf fi felltithio’r hyn sydd heb gael ei felltithio gan Dduw?’ aeth y proffwyd yn ei flaen. ‘Mae disgynyddion Israel fel llwch – mae gormod ohonynt i’w rhifo. Maent wedi derbyn mwy o fendithion na’r un genedl arall. Gadewch i mi ddiweddu ’nyddiau fel un o bobl etholedig Duw.’

Beth! Wyddai Balac ddim beth i’w ddweud. ‘Deuthum â ti yma i felltithio’r Israeliaid a’r cwbl wnest ti oedd eu bendithio,’ llefodd Balac.

‘Mae’n rhaid i mi lefaru yr hyn mae Duw am i mi ei ddweud,’ oedd ateb Balaam.

Wel, roedd y brenin yn biwis. Os oedd Duw’n ochri gyda’r Israeliaid yna byddai’n rhaid gwneud rhywbeth ar fyrder i’w gael i ystyried pethau o safbwynt y Moabiaid. Ond beth? Crafodd ei ben. Ond yn sydyn daeth gwên i’w wyneb. Efallai y byddai newid safle’n gwneud y tric. Ie, dyna ni. Byddai’n dangos y gwastatir i Balaam o ongl arall – yna byddai’n ymddangos fel pe bai llai o Israeliaid a mwy o dir agored.

‘Ewch i mofyn saith bustach arall a saith hwrdd a rhagor o ddeunydd ar gyfer yr allorau,’ dywedodd wrth yr arweinwyr Moabaidd. ‘Rydym am symud i gopa mynydd Pisga.’

Am yr eildro y diwrnod hwnnw adeiladwyd yr allorau, offrymwyd, ac fe ymgynghorwyd â Duw. Am yr eildro bu distawrwydd llethol wrth i Balaam ddychwelyd at y grŵp.

‘Paratowch i gael eich melltithio!’ meddyliodd Balac wrth graffu i weld gwersyll yr Israeliaid yn y pellter.

‘Tyrd, Balac, a gwranda ar yr hyn sydd gennyf i’w ddweud,’ meddai Balaam. ‘Nid yw Duw fel dynion, yn dweud celwydd; nid dyn sy’n newid ei feddwl yw . . . ’

Sylweddolodd rhai o’r arweinwyr Moabaidd beth oedd i ddilyn a rhoesant eu bysedd yn eu clustiau.

‘Rwy’n rhag-weld na ddaw unrhyw ddrwg i Israel yn y dyfodol,’ llefodd Balaam.

Na! Na! Mae’n rhaid ei fod yn camgymryd eto. Roedd Balac bron â thorri ei galon. Wedi’r holl ddringo, a’r holl fustych a hyrddod, roedd Duw yn parhau i wrthod cydweithredu. Tynnodd anadl ddofn. Araf deg, dywedodd wrtho’i hunan. Rhof un cynnig arall arni. Fe awn i safle newydd eto. Awn i safle lle nad oes unrhyw Israeliaid i’w

gweld. Ie, dyna ni! Dyna'r ateb.

'Ewch i 'mofyn saith o fustych a saith hwrdd a'r deunydd i saith allor arall,' meddai wrth yr arweinwyr Moabaidd.

O na! Dim eto! Erbyn hyn roedd yr arweinwyr Moabaidd wedi cyrraedd pen eu tennyn ond gan nad oeddynt yn hoffi dadlau â'r brenin ni agorodd neb ei geg. Felly, i fyny â hwy i ben mynydd arall. Codwyd yr allorau, offrymwyd yr anifeiliaid. Camodd Balaam ymlaen.

'O flaen fy llygaid mae gweledigaeth oddi wrth Dduw,' dechreuodd lefaru.

'Plîs, plîs gad iddi fod yn weledigaeth o'r Israeliaid wedi eu trechu,' gweddïodd Balac.

'Mae pebyll Israel mor hardd,' datganodd Balaam. 'Bydd eu brenin yn fwy na'r un brenin arall ac fe ymestyn ei lywodraeth hyd eithafoedd y ddaear.'

'Pwy bynnag a fendithio Israel, caiff yntau ei fendithio,' gorffennodd. 'A phwy bynnag a felltithia Israel fe'i melltithir yntau.'

Fedrai Balac ddim dioddef mwy. 'Deuthum â thi yma i felltithio'r gelyn!' ffrwydrodd Balac. 'Ond be' wyt ti'n wneud? Ti'n eu bendithio nhw – dair gwaith ar ôl ei gilydd!'

'Mae'n rhaid i mi lefaru geiriau Duw,' meddai Balaam unwaith eto.

Ond wnâi Balac ddim derbyn hyn. Gwrthodai'n llwyr wrando ar air Duw – er petai wedi gwrando'n iawn byddai wedi sylweddoli y gallai yntau dderbyn bendith hefyd. 'Bendithiwch Israel ac fe gewch chwithau fendith,' oedd geiriau Duw.

Doedd dim modd perswadio Balac. Ond roedd yn barod i dderbyn un peth, fodd bynnag. Roedd Balaam yn hollol anobeithiol am felltithio'r Israeliaid.

'Dos oddi yma wir!' gwaeddodd arno. 'Rwyt ti'n gwastraffu fy amser.'

'Clywch, clywch!' bloeddiodd yr arweinwyr Moabaidd.

HYD: 7–8 munud

NEGES: Mae dilyn Iesu'n golygu fod angen gweld pethau o safbwynt Duw.

DARLLEN: Mae'r stori wedi ei seilio ar Numeri 22–24.